



Arolygiaeth Gofal
Cymru
Care Inspectorate
Wales



Sut rydyn ni'n arolygu gwasanaethau cymdeithasol



Fersiwn hawdd ei darllen



Rydyn ni'n arolygu gwasanaethau gofal a chymorth

Rydyn ni eisiau i bawb wybod sut rydyn ni'n gwneud hyn.



Rhan 1

Rydyn ni'n annibynnol.




Rydyn ni'n gwirio gwasanaethau gofal a chymorth.



Rydyn ni'n gwirio bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn ddiogel, yn iach ac yn hapus, a'u bod yn gallu defnyddio eu hawliau dynol.



Rydyn ni'n dweud wrth y cyhoedd am wasanaethau. Rydyn ni'n dweud pa mor dda yw pob gwasanaeth.



- Rydyn ni'n helpu gwasanaethau i wneud yn well.



- Rydyn ni'n rhoi cyngor i bobl sy'n gyfrifol am ofal cymdeithasol a gwasanaethau gofal.



- Rydyn ni'n cymryd camau os nad yw gwasanaethau'n gwneud yr hyn mae'r gyfraith yn ei ddweud



- Rydyn ni'n mynd yn ôl i wirio unrhyw wasanaethau roedden ni'n pryderu amdany'n nhw.



Rydyn ni'n gwirio'r bobl sy'n rhedeg y Gwasanaethau Cymdeithasol.



Rydyn ni'n gwneud yn siwr bod y
Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwneud
yr hyn y mae Deddf Llesiant
Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn
ei ddweud.



Rydyn ni'n dweud wrth awdurdodau lleol
am waith da mae pobl eraill yn ei wneud.



Rhan 2

Pan rydyn ni'n gwirio'r Gwasanaethau Cymdeithasol, byddwn ni'n:



- canolbwyntio ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth



- helpu gwasanaethau i wella yn eu gwaith




- bod yn agored, gonest a theg



- cymryd camau os yw rhywbeth o'i le



- gwneud yn siwr bod ein gwaith gwirio yn gwneud cyn lleied o waith ychwanegol â phosibl i'r Gwasanaethau Cymdeithasol



- trin pob awdurdod lleol yn yr un modd



Rhan 3

Rydyn ni'n gwirio bod awdurdodau lleol yn parchu hawliau dynol pobl.



Rydyn ni'n gwirio bod pobl yn ddiogel. Os nad ydyn ni'n credu eu bod nhw, byddwn ni'n gwneud rhywbeth am y peth.



Mae cyfreithiau sy'n dweud beth i'w wneud os na all rhywun wneud ei benderfyniadau ei hun. Rydyn ni'n gwirio bod yr awdurdod lleol yn dilyn y gyfraith.



Mae'r Gymraeg yn bwysig. Rydyn ni'n gwirio bod pobl yn cael cynnig cymorth yn Gymraeg.



Bydd gennym ni arolygwyr sy'n siarad Cymraeg fel y gall siaradwyr Cymraeg siarad â ni yn eu hiaith eu hunain.



Rhan 4

Rydyn ni'n gwirio pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn rhedeg y Gwasanaethau Cymdeithasol trwy:



- ymweld â nhw



- darllen gwybodaeth amdanyn nhw.



Rydyn ni am weithio gyda nhw i wella gofal cymdeithasol ar draws Cymru.



Rydyn ni'n dweud wrthyn nhw beth sydd:

- yn dda
- angen ei wneud yn well
- angen ei ddatrys yn gyflym



Rydyn ni'n dweud wrth bawb am y pethau da rydyn ni'n eu gweld.



Rydyn ni'n dweud wrth Lywodraeth Cymru am y pethau rydyn ni'n eu gweld.



Mae hyn yn helpu Llywodraeth Cymru i wneud rheolau da am ofal cymdeithasol.



Rydyn ni am wybod:

- A yw pobl yn iach ac yn hapus?



- A yw hawliau pobl yn cael eu parchu?



- A yw gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd?



- A yw pobl yn cael cymorth i stopio problemau rhag digwydd?



Rydyn ni'n gwirio:



- Bywydau pobl sy'n cael help gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.



- Timau gwaith cymdeithasol a thimau eraill.



- A yw'r awdurdod lleol yn gwybod sut i barhau i wella ei Wasanaethau Cymdeithasol.



Rydyn ni'n gweithio gydag arolygwyr eraill. Mae hyn yn golygu bod awdurdodau lleol gwneud unrhyw waith ychwanegol unwaith yn unig.



Rydyn ni'n dweud wrth Gofal
Cymdeithasol Cymru beth rydyn ni'n ei
ddysgu.



Yna gall Gofal Cymdeithasol Cymru
gefnogi gwasanaethau gofal
cymdeithasol i wneud gwaith gwell.



Rhan 5

Gwirio a yw bywydau pobl yn well gyda'r cymorth y maen nhw'n ei gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.



Dyma'r peth pwysicaf yr ydyn ni'n ei wneud.



Mae gan bob awdurdod lleol uwch reolwr sy'n gweithio gyda ni, gan wirio sut mae pethau'n mynd o ddydd i ddydd.



Ni allwn ni ymchwilio i gwynion am y Gwasanaethau Cymdeithasol, ond rydyn ni'n cadw llygad ar yr hyn y mae pobl yn cwyno amdano.



Mae'r gyfraith yn dweud bod rhaid i'r Gwasanaethau Cymdeithasol wirio eu hunain yn rheolaidd.

Byddwn ni'n edrych ar sut maen nhw'n gwneud hyn.



Byddwn ni'n gofyn sut y maen nhw'n gwybod bod eu cymorth yn gwneud bywydau pobl yn well



Bob blwyddyn byddwn ni'n gwirio un peth ym mhob awdurdod lleol. Efallai y byddwn ni'n gwirio'r un peth ar draws Cymru.



Neu, efallai y byddwn ni am ddysgu mwy am rywbeth y mae awdurdod yn ei wneud yn dda neu'n wael. Byddwn ni'n siarad â phobl i gael gwybod. Efallai y byddwn ni'n darllen gwaith papur hefyd.



Byddwn ni'n dweud wrth yr awdurdod lleol am yr hyn rydyn ni'n ei ddysgu. Byddwn ni'n dweud wrth Gofal Cymdeithasol Cymru hefyd.



Bob blwyddyn byddwn ni'n cwrdd â
chyfarwyddwr y Gwasanaethau
Cymdeithasol a phenaethiaid y
gwasanaethau i oedolion a phlant.
Efallai y byddwn ni'n mynd i gyfarfodydd
y cyngor hefyd.



Bob blwyddyn, rydyn ni'n mynd gyda
Swyddfa Archwilio Cymru ac Estyn i
gwrdd â'r Prif Weithredwr.



Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gwirio
bod arian cyhoeddus yng Nghymru yn
cael ei reoli'n dda.



Mae Estyn yn arolygu addysg a
hyfforddiant yng Nghymru.



Mae'r Prif Weithredwr yn bennaeth
pwysig.



Rydyn ni'n cwrdd i drafod sut y maen nhw'n cefnogi'r Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud gwaith da.



Bob blwyddyn rydyn ni'n ysgrifennu adroddiad i'r awdurdod lleol yn dweud beth rydyn ni wedi'i ddysgu.



Rydyn ni'n dweud beth rydyn ni'n meddwl mae angen iddyn nhw ei wneud yn well.



Mae gan Gymru hefyd fyrddau rhanbarthol. Dyma lle mae gwahanol awdurdodau lleol a gwasanaethau eraill yn cwrdd ac yn cynllunio gwaith gyda'i gilydd.



Mae gan bob bwrdd rywun sy'n gweithio'n agos gyda ni.



Weithiau mae mwy nag un awdurdod lleol yn wynebu'r un broblem.



Pan fydd hyn yn digwydd, efallai y byddwn ni'n cynnal Cynhadledd Gwella i edrych ar ddatrys y broblem gyda'n gilydd.

Rhan 6



Rydyn ni bob amser yn gwirio a yw bywydau pobl yn well oherwydd y cymorth y maen nhw'n ei gael gan y Gwasanaethau Cymdeithasol.



Rydyn ni'n gwirio i weld a yw:



- pobl yn cael cymorth pan fydd ei angen arnyn nhw



- pobl yn cael y swm cywir o gymorth.



- pobl yn ddiogel ac yn rheoli pethau.




- cymorth yn cael ei reoli'n dda.



- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio gyda'r bobl y maent yn eu cefnogi a sefydliadau eraill.



- Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gwybod beth sy'n gweithio'n dda ac yn defnyddio hynny i benderfynu sut i gefnogi pobl.



Gall y Gwasanaethau Cymdeithasol barhau i wneud yn well.



Bob pedair blynedd rydyn ni'n gwneud gwiriad llawn o'r gwasanaethau i oedolion a'r gwasanaethau i blant.



Mewn blynyddoedd eraill, rydyn ni'n ceisio gwirio awdurdod lleol arall yn yr un rhanbarth.



Rydyn ni'n dweud wrth yr awdurdod 4 wythnos cyn i ni ymweld. Fel hyn gallwn ni gynllunio pryd i gynnal cyfarfodydd a gwneud ymweliadau.

Mae 4 cam i arolygiad.



- 1 Rydyn ni'n cael gwybodaeth am y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rydyn ni'n edrych ar yr hyn rydyn ni'n ei wybod ac ar bryderon neu gwynion y mae pobl wedi'u gwneud i'r awdurdod lleol.

- 2 Rydyn ni'n ymweld â phobl ac yn gwrando arnyn nhw. Rydyn ni'n gwylio'r hyn sy'n digwydd. Rydyn ni'n mynd i'w swyddfeydd ac yn gwirio'r gwaith papur. Gall hyn gymryd tua phythefnos.



Rydyn ni'n gwirio a yw'r hyn y mae'r staff yn ei ddweud wrthyn ni, yr hyn y mae'r bobl y maen nhw'n eu cefnogi yn ei ddweud wrthyn ni a'r hyn yr ydyn ni'n ei weld i gyd yn dweud yr un peth.



3 Rydyn ni'n rhoi ein barn i'r awdurdod lleol. Mae ganddyn nhw gyfle i ddweud os ydyn nhw'n meddwl ein bod ni'n anghywir.



4 Rydyn ni'n ysgrifennu adroddiad ac yn ei roi ar ein gwefan

1. ____
2. ____
3. ____

Rhan 7

Rydyn ni'n gwneud 3 math o arolygiad:



- Gwirio'r un math o wasanaeth ar draws Cymru.



- Gwirio a yw'r awdurdod lleol yn datrys problem y gwnaethon ni ddweud wrthyn nhw amdani.



- Mynd i wirio pan fydd rhywun yn dweud wrthyn ni am bryder difrifol.

Rhan 8



**Byddwn ni'n siarad â Phenaethiaid
Gwasanaeth pan fyddwn ni'n ymweld
i wirio'r Gwasanaethau Cymdeithasol.**



Byddwn ni'n dweud wrth y Cyfarwyddwr
Gwasanaethau Cymdeithasol yr hyn yr
ydyn ni'n ei feddwl ar ddiwedd ein
harolygiad.



Byddwn ni'n anfon holiadur at y
Gwasanaethau Cymdeithasol i gael
gwybod a wnaethon ni waith da.



Byddwn ni'n ysgrifennu adroddiad.



Bydd yr adroddiad yn dweud:

- Pethau sy'n dda
- Pethau y mae angen eu gwella
- Problemau y mae angen eu datrys yn gyflym



Rydyn ni'n anelu at anfon adroddiad ysgrifenedig at yr awdurdod lleol 5 wythnos ar ôl i ni eu harolygu.



Rydyn ni'n gwirio ein bod ni wedi defnyddio ffeithiau ac nid dim ond yr hyn yr ydyn ni'n ei feddwl.



Mae gan yr awdurdod lleol bythefnos i ddweud wrthyn ni os ydyn nhw'n credu ein bod ni wedi cael y ffeithiau'n anghywir.



Rydyn ni'n anelu at roi'r adroddiad ar ein gwefan 10 wythnos ar ôl i ni arolygu'r gwasanaeth.



Rydyn ni'n disgwyl i'r awdurdod lleol gyflwyno'r adroddiad i'r Cynghorwyr.



Rydyn ni'n disgwyl cael gwahoddiad i'r cyfarfod hwnnw.




Rhan 9

Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol gynllunio beth i'w wneud ynglŷn â'r adroddiad.



Mae ganddyn nhw 4 wythnos i ddweud wrthyn ni beth yw eu cynllun.



Mae'n rhaid iddo ddefnyddio iaith glir a dweud sut y bydd yn cefnogi pobl yn well.



Byddwn ni'n parhau i geisio gwneud yn siwr bod yr awdurdod lleol yn gwneud gwaith gwell.



Efallai y byddwn ni'n gwneud gwiriad arall os ydyn ni'n pryderu.

Rhan 10



Os byddwn ni'n dod o hyd i rywbeth difrifol iawn, byddwn ni'n gwneud rhywbeth yn ei gylch.



Mae modd datrys rhai problemau os byddwn ni'n gweithio gyda'r awdurdod lleol i'w helpu i wneud pethau'n iawn.



Mae rhai pethau'n rhy ddifrifol i aros.



Os bydd hyn yn digwydd, bydd ein prif arolygydd yn cwrdd â chyfarwyddwyr o'r llywodraeth a'r gwasanaethau cymdeithasol i siarad amdano.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ar ôl hynny, Gweinidogion Cymru sy'n penderfynu beth i'w wneud.



Gallan nhw roi Hysbysiad Rhybuddio.
Mae hyn yn dweud beth y mae'n rhaid i'r
awdurdod lleol ei wneud a beth fydd yn
digwydd os nad ydyn nhw'n ei wneud.



Byddwn ni'n parhau i gefnogi'r awdurdod
lleol.



Byddwn ni'n parhau i wirio sut mae'n
gwneud.




Byddwn ni'n ymweld eto mewn blwyddyn i
flwyddyn a hanner ar ôl yr adroddiad
arolygu.



Rhan 11

Mae'n rhaid i arolygwyr ymddwyn yn broffesiynol bob amser.



Mae'n rhaid iddyn nhw ddilyn ein rheolau ar gyfer gwneud arolygiadau.



Mae'n rhaid iddyn nhw bob amser roi pobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn gyntaf.



Gall staff helpu drwy fod yn onest gyda ni.



Mae angen iddyn nhw ddweud wrthyn ni os ydyn nhw'n meddwl y bydden ni'n cynhyrfu pobl.



Mae angen iddyn nhw adael i ni gwrdd â phobl.



Mae angen iddyn nhw gario ymlaen â'u gwaith arferol pan fyddwn ni yno.



Mae'n rhaid iddyn nhw ddod o hyd i fan preifat i ni gwrdd a siarad gyda phobl.



Mae'n rhaid iddyn nhw adael i ni siarad â chynghorwyr a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau heb i reolwr fod yno.



Mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrthyn ni os ydyn nhw'n anhapus gyda'r hyn yr ydyn ni'n ei wneud neu'n ei ddweud.



Mae'n rhaid iddyn nhw weithio gyda ni, fel nad yw'r arolygiad yn eu stopio rhag cefnogi pobl yn dda.



Mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrthyn ni am unrhyw beth y mae angen i ni ei wybod er mwyn cadw'n ddiogel.



Mae'n rhaid iddyn nhw gadw gwybodaeth am yr arolygiad yn breifat nes i ni gyhoeddi ein hadroddiad.



Mae gan Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) bolisi cwynion.



Gall unrhyw un ei ddefnyddio i gwyno os nad ydyn nhw'n hapus am ein gwasanaeth neu am arolygydd.

Rhan 12



Mae angen i ni gasglu llawer o wybodaeth.

Mae peth ohoni yn bersonol neu'n breifat.



Mae cyfreithiau a rheolau am gadw gwybodaeth yn ddiogel.



Mae cyfreithiau a rheolau hefyd am y pethau y mae'n rhaid i ni eu cadw'n breifat a phethau y gallwn ni eu rhannu gyda phobl eraill.



Mae rheolau arbennig ar gyfer rhannu gwybodaeth gyda sefydliadau fel yr heddlu.



Byddwn ni bob amser yn dilyn y cyfreithiau a'r rheolau hynny.